# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 26 Mai 2021** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor J.Warman** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.D.Morgan** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, C.Edwards, S.E.Freeguard, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, S.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, S.Lynch, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, A.J.Taylor, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

   Gyda thristwch mawr y dywedodd y Maer wrth y cyngor am farwolaeth y cyn-Gynghorydd Mark Jones, a oedd yn cynrychioli Ward Aberafan.

   Fel arwydd o barch, cafwyd munud o ddistawrwydd yng nghyfarfod yr aelodau.

Bu’n bleser mawr i'r Maer gyhoeddi bod Mrs Joanna Jenkins MBE, JP, DL, wedi'i phenodi'n Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg ar gyfer 2021 – 2022. Mae Mrs Jenkins yn dod i gyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r cyngor fel Aelod Lleyg.

Croesawodd y cyngor hefyd ei aelod mwyaf newydd, y Cynghorydd Stephanie Lynch, i'w chyfarfod cyngor cyntaf. Mae'r Cynghorydd Lynch yn cynrychioli Ward Aberafan.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd Unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

3. **COFNODION CYFARFOD/YDD BLAENOROL Y CYNGOR (BLWYDDYN DDINESIG 2021/22)**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion 9 a 24 Mawrth 2021 fel cofnod cywir o'r cyfarfodydd hynny.

4. **SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - ADRODDIAD CRYNHOI BLYNYDDOL 2020**

Cyflwynodd K Jones, y Prif Weithredwr, gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru ac esboniodd fod archwilwyr allanol y cyngor yn bresennol yng nghyfarfodydd y cyngor yn flynyddol i amlinellu'r astudiaethau yr oeddent wedi'u cynnal a'r casgliadau y daethpwyd iddynt  Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau'n uniongyrchol i'r archwilwyr.

Nododd yr aelodau y bydd Mr C Davies, sef archwilydd arweiniol presennol Swyddfa Archwilio Cymru, yn cael ei olynu gan Ms N. Jenkins.

Tynnodd Mr C Davies sylw at y ffaith bod y Crynodeb Archwilio yn cyfuno'r Llythyr Archwilio Blynyddol a'r Adroddiad Gwelliant Blynyddol a gynhyrchwyd yn flaenorol fel dogfennau ar wahân er mwyn darparu un crynodeb o ganfyddiadau perfformiad a gwaith ariannol a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ogystal â gwaith archwilio arfaethedig yn y dyfodol.

Clywodd y cyngor fod yr awdurdod wedi cyflawni’i ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio gwelliannau ac adroddiadau blynyddol dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Yn ogystal, roedd y cyngor mewn sefyllfa ariannol gref a oedd yn ei alluogi i fod mewn sefyllfa dda i reoli’i gynaliadwyedd ariannol yn y tymor canolig.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfleoedd i'r cyngor gryfhau trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac wrth roi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ar waith, un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014. Roedd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio'r System Rheoli Perfformiad Corfforaethol newydd i wella'r ffordd y defnyddir gwybodaeth i lywio cynllunio busnes.

Anerchodd Mrs N Jenkins, Swyddfa Archwilio Cymru y cyngor gan amlinellu'r blaenraglen ac mae'n edrych ymlaen at weithio gydag aelodau a swyddogion Castell-nedd Port Talbot.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan yr aelodau:

Holodd yr aelodau a oedd unrhyw waith wedi'i wneud i edrych ar amddifadedd ar draws y 22 awdurdod yng Nghymru. Esboniwyd bod Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithio ar brosiectau lleol gydag awdurdodau ond maent yn tynnu sylw at unrhyw astudiaethau cenedlaethol sy'n cael effaith leol. Gwneir cymariaethau lle bo modd.

Cafwyd trafodaeth ar argaeledd gwybodaeth gymharol mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn y cyngor ac ardaloedd o amddifadedd. Esboniwyd bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Yn ogystal, bydd yr aelodau'n ystyried yr adroddiad Cynaliadwyedd Ariannol diweddaraf maes o law sy'n cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Cafwyd trafodaeth bellach ar ddymunoldeb archwilio lefelau amddifadedd ac anweithgarwch economaidd ledled Cymru i nodi arfer da. Cadarnhaodd yr archwilwyr mai amddifadedd oedd un o elfennau allweddol eu gwaith ac y byddent yn hapus i weithio ar draws awdurdodau yn y dyfodol ac yn hapus i drafod ymhellach.

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru fel y'i cynhwysir yng Nghrynodeb Blynyddol 2020.

5. **CYNLLUN CORFFORAETHOL 2021/2023**

Cyflwynodd y Cyng. E.V.Latham, Arweinydd y Cyngor, Gynllun Corfforaethol 2021/2023 a oedd wedi'i gymeradwyo i'r cyngor gan y Cabinet ar 12 Mai i'w gymeradwyo.

Anerchwyd y cyngor gan yr Arweinydd. Esboniwyd bod y Cynllun Corfforaethol a gyflwynwyd yn adlewyrchu'r heriau sylweddol a gyflwynwyd gan COVID-19 a hefyd Llifogydd Sgiwen. Cofnododd y cyngor ei werthfawrogiad o'r holl waith a wnaed gan staff, preswylwyr a phartneriaid.

Yna myfyriodd y cyngor ar y bywydau niferus a gollwyd ac effaith y pandemig ar lawer o bobl eraill.

Roedd gwaith yn mynd rhagddo i barhau i gynorthwyo preswylwyr i adfer o'r argyfyngau hyn.

Nododd yr aelodau mai elfen bwysig o waith y cyngor yn y dyfodol fyddai cefnogi pobl a busnesau wrth iddynt agor a pharatoi cynllun adfer tymor hwy.

Yn ogystal, cynhelir ymarfer ymgysylltu dros yr haf gyda staff, preswylwyr, busnesau a phartneriaid a fydd yn rhoi cyfle iddynt lunio'r ffordd y mae'r cyngor yn symud ymlaen. Byddai adroddiad yn manylu ar yr adborth o'r ymarfer hwn ar gael i'w ystyried gan aelodau yn yr hydref.

Mynegwyd pryder gan rai aelodau nad oedd Amgueddfa Cefn Coed a Strategaeth y Cymoedd wedi dwyn ffrwyth.

Holodd yr aelodau beth oedd y pwerau statudol sydd gan y cyngor o ran llygredd a sut mae'r cyngor yn defnyddio'r pŵer hwn a pha waith ymgysylltu a wnaed gyda  phartneriaid i ddefnyddio'r pwerau hyn i fynd i'r afael â materion penodol, er enghraifft Gorsaf Bŵer Nwy'r Storfa.

Esboniodd swyddogion mai'r rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am y trwyddedau hyn oedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gweithio'n agos gyda swyddogion y cyngor. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu mewn perthynas â'r ymholiad penodol hwn, gan edrych ar y rhesymeg a'r trothwyon gyda swyddog trwyddedu CNC mewn perthynas â'r meysydd dan sylw a deuir ag adroddiad yn ôl i'r aelodau maes o law.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai Castell-nedd Port Talbot oedd yr awdurdod arweiniol fel rhan o'r Fargen Ddinesig sy'n edrych ar feysydd cefnogi arloesedd a thwf carbon isel. Roedd edrych ar ansawdd aer yn rhan o'r prosiect hwnnw. Byddai offer monitro newydd yn cael ei gyflwyno yn y man a fyddai'n helpu i fesur ansawdd aer.

Wrth ateb ymholiadau'r aelodau, esboniwyd bod prosiect sinema Canolfan Gelfyddydau Pontardawe yn un o'r mentrau ar gyfer Pontardawe ac y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r aelodau ei ystyried yn y dyfodol agos.

Codwyd cwestiynau pellach ynghylch Strategaeth y Cymoedd. Dywedwyd wrth yr aelodau y gellid darparu adroddiad diweddaru ar Strategaeth y Cymoedd pe bai angen.

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1.Mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer y cyfnod 2021 - 2023.

2.Bydd y Pennaeth Datblygu Dynol Sefydliadol yn cael ei awdurdodi i ychwanegu'r data perfformiad ychwanegol at y cynllun pan fydd ar gael.

## 6. SEFYDLU AELODAU NEWYDD AC AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol Raglen Sefydlu Aelodau 2022 a’r rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth fel y’u nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr aelodau i swyddogion gadw’r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth mewn cof wrth ystyried darwahanu amseroedd cychwyn cyfarfodydd, sy'n caniatáu i aelodau etholedig, sy'n weithwyr, gael amser i ffwrdd o'r gwaith i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y cyngor.

**PENDERFYNWYD:** 1.Bydd gan y pwyllgor gwasanaethau democrataidd y dasg o gynnal

adolygiad o'r Rhaglen Sefydlu Aelodau ar gyfer 2022 a chyfrannu ato.

2. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell nedd Port Talbot yn dod yn "Gyngor Amrywiol" yn unol â Rhaglen Amrywiaeth a Democratiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y nodir ym mharagraff 7 o'r adroddiad hwn.

3. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal adolygiad o'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth fel rhan o'i adolygiad o'r Rhaglen Sefydlu Aelodau ar gyfer 2022.

4. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyngor gyda'r diweddaraf am y Rhaglen Sefydlu Aelodau a'r Rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth ym mis Tachwedd 2021.

## 7. PENODI CYFARWYDDWR CYLLID A RHAGLENNI STRATEGOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol Benodiad Cyfarwyddwr Cyllid a Rhaglenni Strategol fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r trefniadau i recriwtio Cyfarwyddwr Cyllid a Rhaglenni Strategol fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

## 8. CADEIRYDD CRAFFU NEWYDD A NEWIDIADAU MEWN AELODAETH

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol y Cadeirydd Craffu Newydd a'r Newidiadau i Aelodaeth fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Penodi'r Cynghorydd Saifur Rahaman yn Gadeirydd a phenodi'r Cynghorydd Sharon Freeguard yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu'r Cabinet.

2. Bydd y swydd wag ar Bwyllgor Craffu'r Cabinet a grëwyd gan y Cynghorydd Sharon Freeguard yn cael ei llenwi gan y Cynghorydd Rachel Taylor.

3. Bydd y Cynghorydd Stephanie Lynch yn cymryd lle'r Cynghorydd Chris Jones ar Bwyllgor Craffu'r Strydlun a Pheirianneg.

4. Bydd y Cynghorydd Stephanie Lynch yn cymryd lle'r Cynghorydd Chris Jones ar y Pwyllgor Cynllunio.

5. Bydd y Cynghorydd Caroline Edwards yn cymryd lle'r Cynghorydd J D Morgan ar Banel Aelodau'r Coronafeirws.

6. Bydd y Cynghorydd Saifur Rahaman yn cymryd lle'r Cynghorydd Mike Harvey ar Gyd-bwyllgor Craffu Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**CHAIRPERSON**